Tudalen 1-12 Mawrth 9/7/14 14:13 Page 1

YR ANGOR
PAPUR CYMRY GLANNAU MERSI A MANCEINION
'ANGORWYD YN NIWYLLIANT EIN CENEDL'

CYF. 35. RHIF 10 | MAWRTH 2014 | 50c

# Noson Fawr y Cwis yn Lerpwl

Ar Nos Fawrth, 28 Ionawr 2014 yng Nghanolfan y Cymry, Penny Lane, Lerpwl cynhaliwyd Cwis Blynyddol Cymdeithas Cymraeg Lerpwl a daeth tyrfa dda ynghyd i gystadlu am y brif wobr. Gofalwyd am y noson yn ddeheuig iawn gan Mrs Devida Broadbent, Roby, sydd yn gryn feistres ar y cyfrwng. Gwelir ei henw yn gyson yng nghystadleuaeth y cylchgrawn *Y Faner Newydd.* Paratodd 50 o gwestiynau ar amrywiol bynciau yn ymwneud â Chymru yn bennaf ond gydag ambell gwestiwn ar helyntion y byd. Cafwyd un rownd ychwanegol i leoli prif ddinasoedd a rhai o daleithiau yr Unol Daleithiau, a theimlai aelodau'r pedwar tîm oedd yno fod y gofyniadau hyn yn gofyn am wybodaeth eang. Y tîm a enillodd oedd *Y Cogyddion*, ac fe gyflwynodd meistres y cwestiynau, gwpan ŵy wedi ei ferwi i bob o'r tîm (wyth ohonynt).

Cyflwynwyd gwobr i'r tîm oedd ar waelod y tabl, a chafodd y tîm hwnnw a alwai ei hunain yn *Patagonia*, bob un ei lwy bren, rhodd arall o garedigrwydd Devida.



*Devida wrth ei gwaith*



*Llawenydd yr wyth oedd yn perthyn i'r tîm buddugol, Y Cogyddion*



*Hyfrydwch y llwyau pren*



*Tîm a wnaeth yn dda yn myfyrio'n galed*

Golygyddol

# YR EGLWYS LÂN GATHOLIG – gan D. Ben Rees

Yn rhy aml o lawer uniaethir y teitl uchod gyda Eglwys arbennig, sef yr Eglwyd Babyddol, ond nid yw hynny yn rhoddi boddhad i Arglwydd y Gogoniant. Y gwir ydyw fod gan bob traddodiad, enwad yr un hawl i'r teitl ag sydd gan yr Eglwys Babyddol neu hyd yn oed Eglwys Uniongred y Dwyrain neu Rwsia. Daw i ni yr hawl o dadogi yr enw, Yr Eglwys Lân Gatholig, ar y Presbyteriaid, y Bedyddwyr a'r Annibynwyr yn ôl ei gweithredoedd, yn ôl ei ffydd ac yn arbennig yn ei ffyddlondeb i feddwl, a dysgeidiaeth ac ysbryd tangnefedd yr Iesu.

Yr hyn sydd yn andwyo pob enwad a chorff a chyfundeb yw methu dilyn Crist a chredu ynddo. "Nid yw diwinyddiaeth Gristnogol wedi awgrymu erioed y gellir gwybod 'ffaith' atgyfodiad Crist ar wahân i ffydd" oedd rhybudd yr Anglican, Alan Richardson. Y mae ffydd mor anhepgorol, mor bwysig, ni allwn wneud dim byd hebddo. Diolch am reswm noeth, a'r ddawn i ddeall, ac i resymu, ond nid yw yn ddigon ar gyfer deiliaid yr Eglwys Lân Gatholig sydd yn gorfod ymgodymu yn gyson gyda hanfodion ein hefengyl. Rhybuddiodd Karl Barth ni rhag ofn i ni fynd yn rhy fawr i'n hesgidiau, a chraffaf ar ei eiriau am y ffyliaid hynny a baratodd slogan fod *Duw wedi marw.* Dywed:

'Y mae'r datganiad fod "Duw yn farw" wedi dod oddi wrth Nietzche ac yn ddiweddarach wedi ei gyhoeddi ar led gan rai diwinyddion Almaenig ac Americanaidd. Ond y mae'r Hwn sy'n trigo yn y nefoedd yn chwerthin am eu pennau'.

Duw byw yw Duw yr Eglwys. Y mae ei Ysbryd Ef yn anadlu lle bynnag y gwna'r Eglwys addoli a gweithredu, myfyrio a gweddïo. Pwy sydd a hawl i gyfyngu ar ei fwriadau, ac i geisio gosod terfynau ar ei fuddugoliaeth. Lle y mae yr Ysbryd y Duw byw, yno mae rhyddid gogoneddus meibion a merched i Dduw o fewn ei Eglwys Lân Gatholig. Boed i eraill weld hyn ac ail-adfer y berthynas odidog a gyflwynir i ni heddiw.

# Cymdeithas Etifeddiaeth Glannau Mersi

Rhif Elusen: 1086046

## ADRODDIAD BLYNYDDOL: 2013

**A. CEFNDIR A HANES/COFRESTU FEL ELUSEN:**
Am fanylion llawn gweler Adroddiad Blynyddol 2007. Ni fu unrhyw newid yn y penawdau yma yn ystod 2013.

**B. AELODAETH A CHYFARFODYDD 2013**
Yn dilyn ymddiswyddiad Mrs Nerys Brookes, Heswall o'r Pwyllgor Gwaith yn 2012 gwahoddwyd aelodau newydd i'r Pwyllgor. Braf oedd croesawu Mrs Nan Hughes Parry (Woolton), Mrs Elin Boyd (Aughton) a Mr Brian Thomas (Mossley Hill) yn aelodau o'r Pwyllgor.
Cynhaliwyd tri cyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith yn ystod y flwyddyn: sef ar Chwefror 2, Mai 18 a Medi 28. Diolchir yn fawr iawn i Mrs Beryl Williams a Dr. Pat Williamss am eu croeso i'w cartrefi yn Allerton a'r lluniaeth yn ystod y flwyddyn.

**C. GWEITHGAREDDAU 2013**
**1) Gŵyl Ddewi 2013**
Cynhaliwyd gwasanaeth Gŵyl Ddewi yn Neuadd y Ddinas ac bu y Pwyllgor yn gyfrifol am nifer o agweddau o'r gwaith gweinyddol ar gyfer y dathlu. Cyfranwyd dros £500.00 tuag at achosion elusennol oedd yn cael eu cefnogi gan yr Arglwydd Faer.

**2) Gŵyl y Cyhoeddwyr 2013**
Cynhaliwyd yr ŵyl dros y penwythnos Tachwedd 2-3. Ar fore Sadwrn cafwyd darlith gan Mr Melfyn Williams, Llanuwchllyn, ar 'Gyfoeth Deunydd ein Cyhoeddwyr Cymraeg' gyda chynhorthwy *Powerpoint.* Cyflwynwyd y siaradwr gan Mrs Beryl Williams. Yn dilyn egwyl am goffi cyflwynodd Dr Arthur Thomas ddarlith gan Dr D. Ben Rees ar 'Gyhoeddwyr Cymru Lerpwl', oedd yn cynnwys cyfweliad ddiddorol gyda Mr Alun Evans, Crosby, aelod o Wasg y Brython, Bootle. Yn yr hwyr cafwyd cyngerdd cofiadwy gan Mr Robat Arwyn, y cerddor a'r cyfansoddwr dawnus o Rhuthun. Yn ystod yr egwyl rhoddwyd anerchiad hwyliog gan Mr Ifor Griffith, llywydd anrhydeddus y noson. Ar fore Sul, yn ôl yr arfer, bu gwasanaeth yn y Capel. Trefnwyd a lluniwyd y gwasanaeth gan Dr D. Ben Rees ac fe gymerwyd rhan gan aelodau o bwyllgor y Gymdeithas a Mr John P. Lyons, Llywydd Henaduriaeth y Gogledd-Ddwyrain, gyda Mrs Rhiannon Liddell wrth yr organ.

**3. Gŵyl yr Adeiladwyr 2014, Mehefin 7-8**
Bwriedir cynnal gŵyl ar Mehefin 7-8 i ddathlu cyfraniad llu o adeiladwyr Cymreig i ddatblygiad dinas Lerpwl. Nodwyd fod digon o gysylltiadau a disgynyddion o'r adeiladwyr blaenllaw ar gael i greu rhaglen ddiddorol. Awgrymwyd cael dwy ddarlith, un yn Saesneg ar llall yn Gymraeg. Y siaradwyr i gynnwys pensaer i drafod pwysigrwydd y tai a godwyd yn hanes datblygiad pensaerniaerh, y llall i edrych ar adeiladwyr penodol. Cyngerdd yn yr hwyr gyda gwasanaeth fel arfer ar fore Sul.

**4. Gŵyl Mimosa 2015**
Bwriedir cynnal gŵyl arbennig yn 2015 i ddathlu ymadawiad Y Mimosa o Lerpwl cant a hanner o flynyddoed yn ôl i sefydlu Y Wladfa. Bu'r Cadeirydd a'r Ysgrifennydd mewn cyfarfod gyda Lesley Delves yn swyddfa y Cyngor a chafwyd ar ddeall eu bod yn hollol gefnogol i'r bwriad o osod cofeb addas yn Pier Head. Awgrymwyd cael plinth i gynnal cofeb bwrpasol. Yn dilyn hyn cafwyd cyfarfod gyd Evans & Burkey, Smithdown Road, ac fe gafwyd amcan am y gost o osod y fath gofeb yn Pier Head. Mae Evans & Burkey wedi gwneud gwaith tebyg i'r Cyngor yng nghyffiniau Pier Head. Y Gymdeithas i sicrhau y cyllid o £4,300 ar gyfer hyn.

Diolchir am gefnogaeth Cymry'r Glannau i sicrhau y prosiectau hyn a bydd y Trysorydd, Ms Rachel Gooding, neu un o'r swyddogion yn barod iawn i dderbyn rhoddion tuag at y gweithgareddau.

***D. Ben Rees (Cadeirydd)***
***Arthur Thomas (Ysgrifennydd)***

Tudalen 1-12 Mawrth 9/7/14 14:13 Page 3

***Coffâd***

# Mrs Ann (Nan) Lewis

## Litherland, Lerpwl (1920-2014)

**Ym marwolaeth Nan Lewis ar fore Mercher, 15 Ionawr, 2014 collodd Cymry Lerpwl un o'i chefnogwyr pennaf, a daliodd ei chefnogaeth yn rhyfeddol i fyny i drothwy'r Nadolig.**

**Bedyddiwyd yn Ann Gwendoline Thomas yng nghapel Walton Park, Lerpwl yn 1920, ond i ni a'i theulu, adnabyddid hi yn syml fel Nan. Yr oedd yn ferch i Henry a Mary Thomas a gadwai Tŷ Capel Walton Park. Yr oedd ganddi chwaer Mair oedd yn byw yn ninas Perth yn yr Alban, a byddai'n edrych ymlaen i fynd am dro i'w gweld hi a'i theulu. Cafodd ei thrwytho ym mywyd Capel Walton Park a byddai yn sôn am yr arweinwyr a'r gweinidogion fel y Parchedigion Richard Thomas a Easter Ellis. Yr oedd ei thad yn ŵr hynod o ddiwylliedig ac yn ddarllenwr mawr yn Gymraeg a Saesneg. Trosglwyddodd rhai o'i lyfrau Cymraeg i mi, yn arbennig *Cyfres Pob Un* o Wasg y Brython o dan olygyddiaeth E. Tegla Davies. Daeth Nan hefyd yn ddarllenwraig a byddai'n rhoi benthyca llyfrau Saesneg yn gyson i mi. Nid oes amheuaeth na fyddai ei thad wedi disgleirio fel Ysgolhaig, a theimlai hi yn falch iawn pan dderbyniwyd Aled ym Mhrifysgol Rhydychen.**

**Yn dair ar ddeg oed a hithau yn ddisgybl Ysgol Uwchradd Everet Avenue yr oedd yn un o organyddion Capel Walton Park, ac ar hyd y blynyddoedd gwasanaethodd fel pianydd ac organydd. Bu wrth y gwaith am 80 o flynddoedd, record anghyffredin. Gadawodd yr Ysgol i weithio fel Ygrifenyddes yng nghwmni enwog Lyons oedd yn enwog am ei bwyd. Cyfarfu â Bob Lewis, cynnyrch Capel Cenhadol Bankhall, a chodwr canu nodedig. Priodwyd hi ym mis Awst 1949 ac mewn ychydig flynyddoedd ganwyd iddynt ddwy ferch Elizabeth a Helen, ac yn 1959 symudwyd i'r cartref yn Stanley Park Road, Litherland lle y bu am 54 o flynyddoedd. Ar ôl i'r merched dyfu aeth yn ôl i weithio fel Ysgrifenyddes yn Ysgol Gynradd (Eglwys Anglicanaidd), St. Phillip's hyd ei ymddeoliad.**

**Yr oedd yn fedrus fel teipydd a hi a fu yn gyfrifol am deipio traethodau ar gyfer nifer o'r teulu ar gyfer cymhwysterau colegol.**



*Nan Lewis*

**Ar hyd ei hoes bu'n ffyddlon i'r bywyd Cymraeg yn Bootle a Lerpwl, ac ni fu neb yn fwy teyrngar i Glwb Cymru Fydd yn Upper Parliament Street gyda'r canlyniad iddi ddod i adnabod llu o Gymry ifanc ym mhob rhan o'r ddinas. Bu hi a Bob Lewis yn weithgar iawn yn Stanley Road ac ym Methania, Waterloo. Hoffai ei gwaith fel organydd ac yr oedd yn hyddysg iawn yn y tonau. Daliodd i chwarae hyd diwedd ei dyddiau, a cheir gwrogaeth arbennig iddi hi a'i phriod yng nghyfrol John P. Lyons, *Cylch yr Amserau*, a ddaeth allan Hydref diwethaf.**

**Bu hi a'i phriod yn ymwelwyr gyda'r henoed a'r cleifion. Yr oeddent wedi arfer teithio, wedi treulio aml i wyliau ar y cyfandir, a'r car modur yn ei cludo i bob rhan o'r ddinas. Bu marwolaeth ei phriod 8 mlynedd yn ôl yn gryn ergyd ac yr oedd llawer ohonom yn meddwl na fyddai yn medru goresgyn ei phrofedigaeth. Ond fe wnaeth hynny trwy help ei theulu, oedd yn agos iddi yn Crosby a'r Wyddgrug, ei ffrindiau niferus a chadwodd cysylltiad a'r rhai oedd wedi gadael y Glannau am Gymru trwy lythyr a ffôn. Yr oedd yn wraig rinweddol ac er yn ymddangos yn eiddil o gorff yr oedd yn gadarn a phenderfynol ac yn arbennig o annibynol. Ac eto sylweddolai pan oedd hi'n anodd arni, a hynny ar Sadwrn cyn y Nadolig (21 Rhagfyr) pan y bu'n rhaid idid fynd i Ysbyty Aintree (Fazakerley) lle y cafodd ofal Ward 31. Gwasanaethais iddi yno a chynnal ar bnawn Mawrth, Ionawr 14 wasanaeth byr iddi. Yr oedd ei chwpan yn llawn y pnawn hwnnw o weld Elizabeth a Gareth, John a Marian Lyons, y Parchedig Margaret Quayle a minnau. Gwerthfawrogir fod ei wyr Ben yn gweithio yn yr Ysbyty a'i fam Helen yn yr Ysbyty Frenhinol. Ymfalchïai yn ei theulu a siaradai yn dda amdanynt ond heb seboni o gwbl. Bu yn hoff o'r Croesair, o'i gardd, o'r Gymraeg, o'r *Angor* (hi fyddai yn ei ddosbarthu).**

**Cynhaliwyd yr arwyl yn Amlosgfa Thornton ar bnawn Gwener, Ionawr 24 a thelais deyrnged didwyll i'w choffa. Trosglwyddwyd rhoddion i waith Help the Aged, i ofal Co-operative Funeral Care, 50-52 Liverpool Road, Crosby, L23 5SG.**

***D. Ben Rees***

# CORNEL Y TRYSORYDD

## MAWRTH 2014

| | |
|---|---|
| Mr Ron Gilford, Cheadle | £10.00 |
| Mr Alun Davies, Gateacre | £10.00 |
| Mr Hywel Roberts, Caernarfon | £30.00 |
| Mr a Mrs John Wynne Jones, Biwmaris | £30.00 |
| Rev. Geoffrey Davies, Mossley Hill | £25.00 |
| Mr Elwyn D. Parry, Caerffili | £10.50 |
| Mr Eryl Wynne Jones, Prenton | £30.50 |
| Mr Elwyn S. Jones, Nant Peris | £20.00 |
| Mr Gareth Lewis Jones, Graig Fechan | £15.00 |
| Rhodd Cymdeithas Cymry Lerpwl | £60.00 |
| **Cyfanswm** | **£241.00** |

*Roderick Owen (Trysorydd)*

*Newyddion o*

# Lannau Mersi a Manceinion

## Eglwys Bethania, Crosby Road South, Waterloo

Daeth tymor John P. Lyons i ben ar Nos Fercher, 15 Ionawr 2014 yng Nghapel Bethesda, Wyddgrug fel Llywydd Henaduriaeth y Gogledd-Ddwyrain. Cyflwynodd anerchiad o'r Gadair wrth ymadael yn diolch am gefnogaeth capeli Bethania, Bethel a Seion iddo yn y swydd ar hyd 2013, ac am yr uchelfannau yn ei hanes. Dilynir ef fel Llywydd gan y Parchedig Robert Parry, gweinidog Capel y Groes, Wrecsam a Chapel St. John's Street, Caer.



*J. P. Lyons yn arwisgo y Llywydd newydd*



*Parchg. Robert Parry a Mr. J. P. Lyons ar derfyn yr Henaduriaeth*

Diolchwn fel Eglwys am yr anrhydedd i ni o gael ein harweinydd yn arweinydd i Henaduriaeth gyfan.

Bylchwyd ni fel eglwys yn fawr iawn ym marwolaeth Mrs Nan Lewis a bwriedir cynnal oedfa i ddiolch am ei bywyd ar 9 Chwefror ym Methania. Paratowyd coffâd iddi yn y rhifyn hwn o'r *Angor*, papur bro y bu hi yn ei werthfawrogi yn fawr ar hyd y blynyddoedd. Meddyliwn am eraill yn ein plith sydd yn wael, sef Miss Dorothy Williams a Mrs Menna Edwards, Blundellsands a Miss Megan Williams, Mersey Road sy'n dal yn Ysbyty Aintree (Fazarkley). Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau da i'r tair ohonynt. Daeth braint fawr i ran Mrs Pamela McNamara pan y cyfarfu yn Neuadd y Philarmonig gyda'r canwr enwog, Bryn Terfel. Dyma lun i'w drysori.



*Pam gyda Bryn Terfel*

## Cymdeithas Cymry Manceinion

Dyma dymor y Gymdeithas bron â dod i ben a da yw nodi inni gael tymor llwyddiannus iawn. Darlith y diweddar Mr. Humphrey Wyn Jones ar Eifionydd oedd ein cyfarfod cyntaf, fis Hydref, a chawsom noson hyfryd yng nghwmni Dai a Sioned Davies – merch a mab yng nghyfraith Humphrey. Fis Tachwedd, James Bond a'i ffrindiau oedd teitl y gŵr gwadd, Dr. John Wiliams. Testun gogleisiol yn wir. Dadlenwyd y cyfan ar y noson, a mwynhawyd hanes Dr. John yn fawr. Noson Nadoligaidd yng nghwmni Glynn Morris, Trefor Davies a Lilian Garrett – tri o aelodau capel Altincham – ddaeth â thymor 2013 i ben. Noson arall bleserus iawn yn gwrando ar dri cherddor dawnus iawn.

A dyna ddod i 2014. Alan Davies, brodor o Ddyffryn Clwyd a phensaer ym ym Manceinion roddodd ddarlith o dan y teitl 'Pensaer o Gymro'. Cafwyd hanes ei yrfa yn adeiladu ac yn atgyweirio yr hen a'r newydd o China i Gonwy! Roedd llunau hyfryd yn cael eu dangos a'u gwerthfawrogi. I gloi tymor 2013-2014 mae un darlith arall i ddod â'i theitl 'Edrych yn ôl ar weinidogaeth y Glannau'. Os gwn i pwy fydd y siaradwr?! Edrychwn ymlaen at groesawu Dr. Ben i'n plith unwaith eto.

***Cymdeithas Lên a Chân yr Ofalaeth*** – Cawsom ddwy ddarlith, un ym mis Hydref a'r llall ym mis Tachwedd y naill gan Mr. Geraint Jones o Rosllanerchrugog a'r llall gan Mr. Aled Lewis Evans o Wrecsam. Fis Rhagfyr ymunodd tua deugain ohonom i gael cinio Nadolig yn y Toby Inn, Heaton Chapel. Cafwyd pryd blasus a phawb yn mwynhau'r gwmniaeth a'r sgwrsio – rhagflas dymunol i dymor y Nadolig.

Edrychir ymlaen yn awr at y Cyngerdd yn Eglwys Emmanuel, Didsbury – cyngerdd i ddathlu ein nawdd Sant Dewi yng nghwmni Côr Gore Glas ac artistiaid o'r Coleg Cerdd. Ac ar Mawrth 1 byddwn yn cael ein cinio a'n cyngerdd arferol yn Noddfa Oaker Avenue. Digwyddadau y byddwn yn eu mwynhau'n fawr ac yn ymfalchïo yn ein gweddïau fel Cymry a'n bod yn dal i ddilyn y traddodiadau hynny sydd yn ein gwneud yn unigryw.

## Eglwys Bethel, Heathfield Road, Lerpwl

Cawsom ddechrau ardderchog i'r flwyddyn newydd gydag oedfa dan ofal ein Gweinidog Emeritws, Dr. D. Ben Rees. Yn ystod yr oedfa gweinyddiwyd y Sacrament o Swper yr Arglwydd ac hefyd derbynwyd tri aelod newydd sef Mrs Devida Broadbent, Roby; Mr. Ted Clement Evans, Woolton a Mr. Ken Williams, Gateacre. Roedd hyn yn newydd da iawn i ni i gyd, a chroesawyd y tri atom yn gynnes iawn gan ddymuno bodlonrwydd a hapusrwydd iddynt fel aelodau o'r Eglwys.

Bu Cyfarfod Gweddi Dechrau'r Flwyddyn ar nos Lun, 6 Ionawr a diolchwn i bawb a gymerodd ran. Clywsom newydd trist iawn ar ddiwedd y cyfarfod hwn, sef am farwolaeth Mr.

## *CYMRY ALTRINCHAM A MANCEINION*



*Nadolig yn Heaton Chapel*

Charles Morgan Parry, Rhostryfan, a chynt o Garthdale Road, Lerpwl. Roedd ei dad, Mr. Morgan Parry, yn flaenor yn Eglwys y Drindod, Princes Road. Daeth Charles, ei fam Mrs Joan Parry a'i chwaer Mair yn aelodau ym Methel a'r Ysgol Sul. Wedi symud i Gymru, bu Charles yn darlledu ar Natur ar y radio a'r teledu. Cynhaliwyd yr angladd yn Amlosgfa Bangor am hanner dydd ar ddydd Mawrth, 14 Ionawr. Cydymdeimlwn yn fawr â'i briod, Wendy, y plant Matthew a Martha a'i chwaer Mair a gollodd ei phriod Mr. Dewi Tomos yn ddiweddar.

Erbyn hyn y mae Pwyllgor Rhyngrwyd yn y Capel. Mae'r aelodau wedi cyfarfod i drafod website *Liverpoolwelsh.co.uk* ac i baratoi ein ymateb fel Capel.

Cynhaliwyd Cyfarfod Eglwysig Blynyddol yr Eglwys ar fore Sul 12 Ionawr pryd y cawsom adroddiadau ardderchog a chynhwysfawr gan ein Ysgrifennydd, Dr. Pat Williams a'n Trysorydd, Dr. John G. Williams, am bopeth a gymerodd le yn ystod y flwyddyn a aeth heibio ac am y sefyllfa ariannol yr Eglwys. Diolchwn yn fawr i'r ddau am eu holl waith.

Cafwyd darlith ar Howell Harris (1714-1773) gan Dr. D. Ben Rees yn Y Gymdeithas Lenyddol ar nos Lun, 27 Ionawr a llywyddwyd gan Dr. Pat Willams. Bu canmoliaeth mawr i'r ddarlith a chanolbwyntiodd y darlithydd ar gysylltiad y Diwygiwr a Chymry a Saeson yn Llundain rhwng 1739 a 1751. Gwelwyd lluniau o John a Charles Wesley, George Whitefield a'i ffrindiau o blith y Methodistiaid, y Calfiniaid a'r Morafiaid, a hefyd y gwragedd y bu mab Trefeca yn ffrindiau â hwy fel Madam Sidney Griffith, Cefnamlwch yng ngwlad Llŷn. Yr oedd y cynulleidfa hardd wedi ei bodloni yn y cyflwyniad a'r holl baratoad *power point* a gyflawnodd Dr. John G. Williams ar ran yr Athro D. Ben Rees. Edrychwn ymlaen yn awr i'r Oedfa a gynhelir yn Seion, Penbedw ar bnawn Sul, 16 Mawrth pryd y ceir anerchiad ar fywyd a gwaith y Diwygiwr.



*Ted Clement Evans a Devida Broadbent a'r Gweinidog ar fore Sul cyntaf 2014*

## Eglwys Seion, Laird Street, Penbedw

Dyma hi bron yn fis Mawrth, mis dathlu ein Nawdd Sant Dewi. A daw rhyw bennill bach i'r cof. Byddem yn arfer adrodd yn yr ysgol yng nghyngerdd Gŵyl Ddewi. Tebyg i hyn oedd y pennill.

*Bachgen bach o Gymru*
*Ydoedd Dewi Sant,*
*Sydd yn cael ei garu*
*Gennym ni y plant.*
*Bach bach o Gymru*
*Oedd John Penry gynt,*
*Sydd a'i enw melys,*
*Beunydd yn y gwynt.*

Wedyn ar ôl y cyngerdd byddem yn cael hanner diwrnod o wyliau. Dymuniadau gorau ar y dathlu ond siom na chawn fynd i Neuadd y Ddinas yn Lerpwl. Cofiwn gyngor Dewi – gwnewch y pethau bychain, hefyd yng nghanol y dathlu a'r gwledda, cofiwn y rhai llai ffodus yn y byd sydd yn newynu ac yn ddigartref.

A'r flwyddyn newydd yn ei babandod, cafodd Miss Megan Roberts newydd trist iawn. Bu farw priod ei nai Gomer yn frawychus o sydyn yn Ysbyty Gwynedd. Cydymdeimlwn fel eglwys â'r teulu i gyd yn eu profedigaeth. Byddai Gomer yn arfer dod i'r Ysgol Sul Undebol i (Laird Street bryd hynny) pan yn ifanc, ac mae ei rieni Mr a Mrs Merfyn Roberts) yn adnabyddus i lawer yn Birkenhead a Bebington. Ein cofion cywir atynt. Gofid yw deall nad oes yr un o'r tri yn mwynhau iechyd rhy dda, a fod yr un oedd yn gofalu amdanynt wedi ei chipio oddi arnynt mor ddisymwth. Ond fe wyddant hwy fel teulu fod nerth i'w gael a llaw i'w cynnal

*'Mae'n dda nad y'm yn gwybod,*
*Pa niwed ddaw i'n rhan,*
*Fe gollem ein synhwyrau*
*Gwallgofem yn y fan',*
meddai un bardd.

Balch ydym o glywed fod Mrs Victor Edwards adref ar ôl y driniaeth gafodd yn Ysbyty Arrowe Park i'w phenglin, ac mae yn gwella yn dda. Caiff pob gofal gan y Parch Victor Edwards a'r genethod. Rydym wedi bod yn ffodus yn Seion o gael gwasanaeth Mr. Edwards, mae yn ffyddlon bob pnawn Sul os na fydd yn cynnal oedfa yn rhywle arall. Rydym yn gwerthfawrogi ei wasanaeth yn fawr iawn fel diadell.

Pleser yw cael cyhoeddi fod Mrs Catherine Wright (Wrecsam) gartref wedi 5 wythnos yn Ysbyty Maelor Wrecsam ar

ôl syrthio a thorri ei chlun. Ein cofion hefyd at y Parch Tom Wright. Cawsom flynyddoedd difyr iawn yn eu cwmni pan oedd yn gweinidogaethu yn Cilgwri. Dymunwn i'r Parch a Mrs T. R. Wright a'r Parch a Mrs Victor Edwards iechyd i fwynhau blynyddoedd o hamdden ar ôl eu llafur diflino a chlodwiw yn hybu gwaith y Deyrnas. Gweision da a ffyddlon yw'r ddau.

Sul, 26 Ionawr roedd y gwasanaeth yng ngofal Miss Iris Hughes-Jones. Wedi y rhannau arweiniol cawsom y Cyfarfod Blynyddol yn ôl y gofyn. Fe eglurodd Iris fel ysgrifennydd a thrysorydd Seion y sefyllfa yn gryno i'r gynulleidfa.

Roedd wedi bod yn flwyddyn gostus dros ben i Seion. Bu rhaid talu am y galanast ar ôl y fandaliaid dair gwaith ac atgyweirio yr adeilad droeon. Fe esboniodd y cyfan yn glir, a fod y ddyled wedi ei thalu. Rhoddodd ar ddeall hefyd fod *rhaid i bob aelod dalu £81 i'r Cyfundeb yng Nghaerdydd a £2.50 i Henaduriaeth y Gogledd-Ddwyrain* a bydd gweddill ein harian aelodaeth yn mynd i gynnal yr achos yn Seion. Cafodd yr aelodau gyfle i ddatgan eu barn a chael esboniad ar ambell gwestiwn. Diolchwyd i Iris Hughes-Jones am yr adroddiad ac am roi o'i hamser i wneud y cyfan mor ddi-drafferth. Mae yn gyfrifoldeb aruthrol i ofalu am y cyfan yn enwedig o gofio mai eiddo eraill ydyw y cyfraniadau a'r casgliadau a'r taliadau. Diolch yn fawr yw byrdwn ein neges i'r un sydd yn flaenor yng ngwir ystyr y gair. Awn ymlaen yn ffyddiog.

## Cymdeithas Cymry Lerpwl

I ddechrau ail hanner y tymor fe gafwyd ocsiwn yn 5 Gwydrin Road.




*Ocsiwn fawr y Cymry*



*Stondin llyfrau*


Daeth criw da yna ar noson wlyb ag oer ac fe wnaed elw o £160 i'r Gymdeithas.

Ar Ionawr 11 daeth Trefor Roberts, Penbedw atom i sôn am ei "Daith i'r môr" sef ei atgofion am ei fordaith gyntaf yn 1956. Bu iddo adael yr ysgol yn 15 oed a'i swydd gyntaf oedd yn swyddfa 'Stocks and Shares' Cwmni Cammel Lairds, Penbedw. Wedyn cafodd swydd



*Trefor Roberts*
*a'i lun yn ddeunaw oed!*

fel 'draughtsman' gyda'r un cwmni ond bu raid iddo fynd i ysgol nos i wneud cwrs i fod yn beiriannydd. Felly ychydig ddyddiau cyn y Nadolig yn 1956 roedd



*David John Williams*
*(y Trysorydd yn gwbl hapus)*

yn Doc Victoria, Penbedw yn barod am ei fordaith gyntaf fel peiriannydd. Perchnogion y llong oedd T & J Brocklebanks, y cwmni hynaf yn y llynges fasnach ac roeddynt yn rhan o gwmni Cunard. Yr oeddynt yn cario llawer o nwyddau o India i Brydain gan wneud llawer o waith gyda'r East India Company.

Cawsom yr hanes iddo adael Penbedw, mynd heibio Sir Fôn ac yna ymlaen i Fae Biscay lle bu storm ddrwg. Aeth ymlaen trwy Fôr y Canoldir, Camlas Suez a'r Môr Coch. Arhosodd ym mhorthladd Sudan a phorthladd Aden yn yr Yemen. Hwyliodd ar draws Cefnfor India heibio Ceylon, neu Sri Lanka yn awr, ac ar hyd ochr ddwyreiniol India i Fae Bengal wedi galw yn Calcutta, ble roedd tlodi mawr, yna ymlaen i Bangladesh lle byddai'r llong yn cael ei llenwi gyda jiwt. Wedi hyn os oedd y howld yn llawn yr oeddynt yn medru hwylio yr holl ffordd yn ôl i Dundee yn yr Alban ond os oedd y howld ddim yn llawn yna yr oedd yn rhaid mynd ymlaen i godi mwy o nwyddau o borthladdoedd America. Roedd pawb wedi mwynhau y noson a'r atgofion.

Ar y nos Fawrth olaf yn Ionawr cafwyd y Cwis blynyddol wedi ei baratoi gan Devida Broadbent. Roedd 4 tîm yn cystadlu yn yr ornest. Roedd y cwestiynau yn anodd ond safon y timau yn uchel. Trwy ryw wyrth tîm Y Cogyddion oedd yn fuddugol. Derbyniasant wobr sylweddol ac 'roedd pawb wedi mwynhau y noson. Diolch i Devida am ei threfnu.

Tudalen 1-12 Mawrth 9/7/14 14:13 Page 7

# NEWYDDION MANCEINION

**ENCIL BYWYD A THYSTIOLAETH YN GLYN CEIRIOG MEDI 24ain 2013**

Ar ddydd Mawrth hynod o heulog a chynnes aeth deg ohonom o'r capel mewn ‘mini’- bus i Ddyffryn Ceiriog. Wedi cyrraedd Y Waun, dyma droi i fyny i’r dyffryn trwy lôn -goediog a ‘nant y mynydd yn prysur ymdroelli tua’r pant’.golygfa fendigedig. Croesawyd ni yn y Ganolfan Gristnogol a derbynniol iawn oedd cwpaned o goffi a theisen gri yno. Yna ymlaen i’r Neuadd Goffa a chael gwasanaeth fendithiol dan arweiniad Mrs Sydney Davies. Pleser oedd cael gweld y ffenestri lliw â’u hanesion a’u cymeriadau diddorol yn ogystal a chael oedi yn yr Amgueddfa â’i llu trysorau

Yna, pawb yn eistedd o gylch y byrddau yn mwynhau gwledd o fwyd wedi’i baratoi gan y merched - pob math o ddanteithion blasus- mae’n diolch yn fawr iddynt am baratoi mor drylwyr.

Am dri o’r gloch, aethom i gapel Soar, capel bach hyfryd ac awyrgylch gartrefol yno. Cawsom bregeth a Chymun dan arweiniad y gweinidog bro y Parch David Owens a dyna glo addas i ddiwrnod y cofiwn amdano gyda llawenydd a gwerthfawrogiad o gael bod yn rhan ohono.

Cafwyd siwrnai rwydd yng ngofal ein gyrrwr hynaws a buan y daeth y daith i ben a ninnau yn ôl yn sŵn prysurdeb Manceinion.

Diolchwn i Eleri am wneud y trefniadau ar ein cyfer. Diwrnod i’w gofio a’i drysori yn wir.

**CYFARFOD PREGETHU NODDFA OAKER AVENUE BRYNHAWN A NOS SUL, MEDI 29ain 2013.**

Braint oedd cael croesawu y Parch Gareth Edwards, Deganwy i’n plith a hynny ar brynhawn braf o Fedi. Da oedd gweld cynulleidfa gref, yn y prynhawn yn enwedig, yn aelodau o Oaker Avenue, Willow Tree Road a Warrington.

O lyfr Genesis y daeth pregeth y prynhawn ac ar y gair ‘ffynhonnau’ yr oedd y pwyslais - purdeb y ffynnon, ei dyfnder a’r ffaith na ellir ei disbyddu. Mae llawer o’n hemynau adnabyddus yn atsain y gair ‘ffynnon’. ‘Y gŵr wrth Ffynnon Jacob’, ‘Iesu ti yw ffynnon bywyd’. Cafwyd gwasanaeth bendithiol.

Ar ôl te blasus wedi’i baratoi gan ferched Oaker Avenue a llawer o sgwrsio a chymdeithasu, roeddem yn edrych ymlaen at wasanaeth a neges yr ail gyfarfod. ‘Drws’ oedd y gair allweddol ym mhregeth yr hwyr. Dyfynwyd aml i adnod yn cynnwys y gair ‘drws’: ‘Cau dy ddrws pan weddïwch’; ‘Caewyd y drws’ yn nameg y deng morwyn; ‘y llew yn llercian wrth y drws’ yn llyfr Genesis’ ac yn llyfr y Datguddiad ‘Wele yr wyf fi yn sefyll wrth y drws’; yn llyfr Ioan ‘Myfi yw’r drws’ ac yn olaf yn Llyfr y Datguddiad ‘Wele, rhoddais ger dy from ddrws agored ac ni ddichon neb ei gau’. Pregeth rymus a digon inni feddwl amdano yn sicr.

Cafwyd dau gyfarfod hyfryd ym mhresenoldeb y Parch Gareth Edwards gobeithio iddo yntau fwynhau bod gyda ni. Pleser pur oedd cael ei gwmni.

**Y RALI GENHADOL YN ALTRINCHAM DYDD SADWRN 5 HYDREF 2013**

Cynhaliwyd ein Rali Genhadol flynyddol eleni yng nghapel Willow Tree Road. Ein siaradwraig oedd y Barch Nan Wyn Powell Davies, yr Wyddgrug.

Cymerwyd y rhannau arweiniol gan aelodau o gapeli Noddfa Oaker Avenue ac Altrincham o dan ofal ein llywydd, Mrs Mair Swift.

Cawsom neges neu bregeth, yn wir, gofiadwy gan y Barch Nan Wyn. Dameg y Wledd Fawr oedd ei thestun, y gwahoddiad a roddwyd i’r wledd yn cael ei wrthod er mawr siomiant i’r gwahoddwr. Un o’r gwahoddedigion wedi prynu cae, y llall wedi ‘prynu pum pâr o ychen’ a’r olaf newydd briodi. Roedd y wledd yn barod iddynt ond nid oeddynt hwy yn barod i dderbyn y gwahoddiad.

Fel y gwyddom mae llawer darlun o wledda yn y Beibl: ‘Ti a arlywi ford ger fy mron; ‘Dewch prynwch win a llaeth’ a ‘Duw sy’n arlywio’r wledd.’ Ond roedd yr esgusodion yn y ddameg yn bathetig ac nid oedd bwriad gan y bobl i ddod i’r wledd. O’r herwydd, gyrrodd y Meistr y gwas allan i strydoedd a heolydd y dref a’i annog i ddod â’r tlodion, yr anafusion, y deillion a’r cloffion i’r wledd ac iddynt ddod ‘fel y maent.’ A dyna ymateb i’r gwahoddiad a’r alwad i ninnau heddiw i estyn y gwahoddiad i eraill a hynny fel dilynwyr Iesu Grist. Pleser oedd cael bod yng ngwydd y Barch Nan Wyn a gwrando ar ei chenadwri.

Mwynhawyd cwpaned o de a sgwrs ar ôl y cyfarfod. Mae’n diolch i aelodau Altrincham am baratoi’r te ac am ein croesawu unwaith eto.

***Gohebydd Manceinion.***

## CYMDEITHAS CYMRY BIRKENHEAD

Ar Ionawr 20fed, aethom o festri Seion am ryw awr a chwarter ar “Daith arall i’r Israel” yng nghwmni ein cyfaill y Parch Ddr. D. Ben Rees. Nid oedd angen i Bob, ein llywydd, gyflwyno ein gŵr gwadd. Ers amser maith ‘rydym fel cymdogion ar y Glannau, yn gyfarwydd iawn â Dr. Ben fel gweinidog, darlithydd, awdur, golygydd a chefnogwr brwd o holl agweddau bywyd Cymraeg ein cylch. Pleser oedd ei groesawu atom unwaith eto.

Ar y daith clywsom am atgofion cyfeillion Lerpwl o’r amryw o deithiau a gawsant i “wlad yr Iesu” (record Dr Ben yw 20) a gwelsom luniau o’r mannau sydd mor gyfarwydd inni o’r Efengylau.

Yn eu mysg yr oedd llawer sy’n aros yn ein cof wedi gweld y lluniau: y grwpiau o flaen *Dome of the Rock*, digwyddiadau fel gweld ein cyfeillion yn derbyn cymun ar fynydd y Gwynfydau neu fynydd y Gweddnewidiad, yn cerdded strydoedd Capernaum, ymlacio yn y Môr Marw a theithio yn y cwch ar draws Mor Galilea, a myfyrio yng ngardd Gethsemane.

Yn ogystal â’r golygfeydd cawsom wers hanesyddol gan Dr. Rees wrth weld adfeilion Masada a deall y dioddef a’r angerdd a ddigwyddodd yno, ac edrych ar y “Golan Heights” sy’n perthyn yn wreiddiol i Syria a deall yr anghydfod sy’n parhau.

Gwnaed y diolchiadau gan Mrs Marged Jones, gan ddatgan ein gwerthfawrogiad am noson hynod o ddiddorol a chartrefol.

Cyfeiriodd ein llywydd, Bob Jones at farwolaeth ein cyfaill a’n cyn-aelod, Mr Trefor Edwards, Wrecsam, gynt o Benbedw, gan fynegi ein tristwch a’n cydymdeimlad at Mari a’r plant a’u teuluoedd. Trefor oedd un o’r cwmni bach goleuedig a ddechreuodd ein Cymdeithias yn y chwedegau. Ef a Mr Oliver Gregory oedd y cyd-ysgrifennyddion cyntaf: bu Trevor yn ysgrifennydd llawn yn y cyfnod 1966-67 ac yn y saithdegau etholwyd ef yn llywydd.

Hyd eu symudiad o Prenton i Wrecsam, ‘roedd Trefor a Mari yn aelodau ffyddlon a gweithgar o’n cymdeithas ac roeddynt yn dal i fynychu’r Cinio Gwyl Ddewi am rhai blynyddoedd ar ôl symud yn ôl i Gymru. Coffa da ac annwyl amdano gyda’n diolch am ei weledigaeth wreiddiol a’i ymroddiad parhaol dros y “pethe’’ sy’n bwysig i’r Cymry Cymraeg.

# Neuadd y Ddinas yn gwrthod rhoddi cyfle i'r Cymry gynnal yr Ŵyl

**Siomedigaeth fawr oedd derbyn yr e-bost ganlynol o Neuadd y Ddinas Lerpwl a ninnau fel Cymdeithas Etifeddiaeth Cymry Glannau Mersi wrthi yn trefnu ar gyfer Gŵyl Ddewi 2014. Dyma'r neges:**



*Gŵyl Dewi 2013*

*Rev Rees,*

As previously discussed regarding the Welsh Civic Service, there are a number of issues with holding this in 2014, The Service it is felt needs to be returned to a place of worship. Liverpool Town Hall was only used originally as a venue while restoration work was in progress, the 3 other Civic Services are all in their designated Churches/Cathedrals and held on a recognised religious day.

Also budget restrictions within LCC have affected our capability to fund this event, these are the costs associated with the 2013 event

| | **Gross** |
|---|---|
| Room Hire | £915.00 |
| Service Sheets | £109.00 |
| Catering | £672.00 |
| PRS | £40.85 |
| Cloak Room Staff | £112.00 |
| | **£1,848.85** |

The room hire rate is based on a half day internal rate but for week day hire only, St David's day falls on a Saturday in 2014 we lose the capability to take a £3,390.00 external hire (wedding or dinner). And a 20% catering commission charge levied on the caterer. There are also costs associated with the work done by the Town Hall staff prior to the event. This is not a decision that has been made lightly, but we do believe that it is the correct one under these circumstances.

As with all the Civic Services, The Lord Mayor's Office will provide all civic invites prior to the event and ensure that the Lord Mayor is in attendance, irrespective of the venue or date.

*Stephen Gibbs*
*Liverpool Town Hall Manager*

Bwriedir gosod ateb Dr. D. Ben Rees iddynt ar wefan Liverpool-Welsh.co.uk yr wythnosau nesaf hyn, a threfni Oedfa Gŵyl Ddewi ar 1 Mawrth 2015.



*Gwahoddedigion*

## DYWEDIADAU AMRYWIOL

**GWERTH MÊL**

Dylid ei gael bob pryd bwyd, yn lle ei gadw ar gyfer adegau achysurol. Geiriau J. Huw Anwyl, Y Bala oedd y rhain: "Petai gwerin Cymru yn gwybod gwerth mêl fel bwyd, fe fyddent ar ôl gwenynwyr ein gwlad." Mab i J. Emrys Anwyl, y gwenynwr enwog o Llandderfel, ydoedd ac aeth J. Huw Anwyl i'r Weinidogaeth Bresbyteraidd gan wasnaethu am flynyddoedd yn yr Unol Daleithiau.

**YFORY HEDDYCHLON**

Y mae'r gorffennol yn broffwydol drwy ddatgan yn huawdl mai cŷn effeithiol yw rhyfel i gerfrio yfory heddychlon.

*Martin Luther King*

# CYSTADLEUAETH

## *CWIS MAWRTH I DDARLLENWYR YR ANGOR*

'Y mae cymaint o bleser i'w gael yn ateb cwestiynau' - *Golygydd*

## A. AMRYWIOL - Deg Cwestiwn

1. Pa iaith a fu farw ar wefusau Dolly Pentreath yn 1777?
2. Beth yw enw'r afon sydd yn llifo heibio Caergaint?
3. Beth oedd enw'r Car Prydeinig a werthodd mewn byr amser filiwn ohonynt?
4. Cyn y Chwyldro Diwydannol yng Nghymru enwch y dref fwyaf ei maint?
5. Yma mha le y gwelir Ogof Ffynnon Ddu, ogof fwyaf dwfn Prydain Fawr?
6. Pa gastell Cymraeg yng ngogledd Cymru sydd â'r waliau trwchaf yn y byd?
7. Faint o lythrennau sydd yn yr enw – Llanfairpwllgwyngyllgogerychwyrndrobwllllantystiliogogogoch?
8. Beth a greodd William Hillman yng Nghofentri cyn iddo lunio'r moduron?
9. Beth oedd enw bedydd Cynan?
10. Beth yw pwysigrwydd Gelli Gandryll?

## B. ACTORION A DIDDANWYR.

Beth yw enwau llwyfan a sgrîn a ffilm y deg canlynol.

1. Richard Walter Jenkins
2. Krishna Bhanji
3. Emma Bunton
4. Maurice Jospeh Micklewhite
5. Arthur Stanley Jefferson
6. David Ivor Davies
7. Gordon Sumner
8. David McDonald
9. Michael Dumbbell-Smith
10. William Pratt.

## C. O BLE?

1. O ble yng Nghymru yr aeth hen-hen-daid Tom Cruise i'r America?
2. Yn ble y ganwyd yr hanesydd Syr John Edward Lloyd (1861-1947)?
3. Yn ble y priododd David Lloyd George a Margaret Owen ar 24 Ionawr 1888?
4. O ble yng Nghymru yr aeth hen-hen-famgu Harriet Beecher Stowe i'r America?
5. O ble ym Mhenbedw y bu y Parchedig John Gruffydd Moelwyn Hughes (1866-1944) yn weinidog o 1917 hyd 1936?
6. I ble y symudodd Richard Griffith ('Carneddog', 1861-1947), y bardd a llenor yn 1945, ef a'i wraig Catherine fel y cofir o lun gwych Geoff Charles yn y Cymro?
7. Ym mha le y ganwyd y ffotograffydd Geoff Charles?
8. Ym mha le y bu farw Syr Henry Walford Davies (1869-1944), y cerddor oedd yn adnabyddus trwy'r holl fyd am ei recordiau gramaffon?
9. Yma mha le y ganwyd Syr Alfred Thomas Davies (1861-1949) ysgrifennydd parhaol cyntaf adran Gymraeg y Bwrdd Addysg?
10. Pa dref yn Sir Fynwy y cysylltir William Bruce (1865-1947) y gwleidydd, ag ef?

## D. EGLWYSI CADEIRIOL ANGLICANAIDD

1. Pa Eglwys Gadeiriol yn Lloegr sydd yn uwch na Phyramid mwyaf yr Aifft?
2. Ym mha le y lleolir Eglwys Gadeiriol Ynys Orkney?
3. Beth sydd yn arbennig am Eglwys Gadeiriol Winchester?
4. Pa Eglwys Gadeiriol yng Nghymru sydd wedi ei lleoli ar safle Oes y Saint?
5. Pa Eglwys Gadeiriol sydd yn gwarchod enw da merthyr Cristnogol cyntaf Lloegr?
6. Enwch y sant sydd wedi rhoddi enw da i Eglwys Gadeiriol Glasgow?
7. Ym mha Eglwys Gadeiriol y cewch chwi weld y ffenestr liw, a elwi Ffenestr Crecy?
8. Yma mha le y lleolir Eglwys Gadeiriol leiaf y Canol oesoedd?
9. Ym mha Eglwys Gadeiriol y bedyddiodd y gantores pop, Madonna ei mab Rocco ar ddiwrnod ym mis Rhagfyr 2000?
10. Yn ymyl pa Eglwys Gadeiriol y ganwyd y chwaraewr ieuengaf erioed i chwarae tenis am Gwpan Davis?

**Dyna'r dasg. Rhoddir marc am bob cwestiwn cywir.**
**Y tro hwn rhoddir gwobr am yr ymgeisydd a gaiff y marciau gorau ym mhob adran, ac yna y person a gaiff y cyfanswm gorau yn Adran A, B, C, D a gaiff wobr gyntaf.**
**Golyga hyn fo pump gwobr ar gael, a chymeryd yn ganiataol, fod pump person gwahanol yn haeddu'r gwobrau, ond gall un person gael pum gwobr os yw ef ar ben y rhestr ym mhob dosbarth.**

**Anfoner eich ymgais erbyn bore Llun, Mawrth 10, 2014 i'r Golygydd, 32 Garth Drive, Liverpool L18 6HW er mwyn i chwi dderbyn eich parsel.**

Tudalen 1-12 Mawrth 9/7/14 14:13 Page 10

# HOLI GWEINIDOG Y BEDYDDWYR

Golygydd Yr Angor Dr. D. Ben Rees yn holi

## *Y Parchedig John Davies, Llanidloes*



**Gair i ddechrau am eich cefndir fel Gweinidog**

Mab y Mans ydwyf. Yr oedd fy nhad y Parchedig W Penry Rowland Davies yn Weinidog yn Rhiwbeina, Caerdydd pan y'm ganwyd. Maesdref foethus lle yr oedd gan yr Anglicaniaid a'r Bedyddwyr Saesneg dystiolaeth ardderchog yr adeg honno.

Yr oedd fy rhieni yn ddylanwad mawr arnaf. Pan oeddwn yn dechrau cerdded ar fy mhen fy hun, bu fy nhad yn ddifrifol wael, bron hyd angau. Symudwyd oherwydd hyn i Sarn yn Sir Drefaldwyn lle daeth fy nhad yn fugail y fro – beirniadu yn yr eisteddfodau ym Mhowys a gofalu am dîm pêl-droed. Yr oedd ef yn fugail gofalus iawn o'i braidd. Bu mam mor ddarbodus gan fod pedwar o blant ganddi mewn tŷ lle nad oedd trydan na charthffosiaeth. Gwraig Gweinidog o'r radd orau oedd hi. Bu fy athrawes gyntaf yn Ysgol Sarn, Miss Otteline Jones, yn ofalus ohonom. Y pedwerydd dylanwad oedd organyddes ein heglwys, Miss Evelyn Evans, athrawes weithgar yn Amwythig, ond organyddes ein capel. Cymerodd ddiddordeb mawr yn fy mrawd a minnau. Dyma rai a ddangosodd Gristnogaeth ar waith.

**Pa adrannau o'r Ysgrythur Lân a roddai i chwi gysur yn blentyn?**

Adnod fawr y Beibl – Ioan 3:16; y Gwynfydau a Salm 23 a 121 a'r adnod o Mathew 10:22. Fel y tyfais, cefais fy hun yn mwynhau dau o lyfrau'r Hen Destament, Amos a Hosea, sy'n rhoddi golwg ar arbennig inni o gyfiawnder Duw ac o gariad Duw tuag at y tlawd a'r difreintiedig. Ni allaf anghofio Llyfr y Salmau am ei fod yn mynegi gynifer o brofiadau y gwn i amdanynt. O'r tri, Hosea yw'r ffefryn (cariad grasol Duw yw'r thema). Caf gysur mawr yn y Testament Newydd o Efengyl Ioan a'r Epistol at yr Hebreaid. Rwy'n rhyfeddu at strwythur Efengyl Ioan, y pwyslais ar oleuni a bywyd. Gwelaf newydd-deb bob tro y darllenaf yr Efengyl. Ac y mae'r Hebreaid mor 'helpful' am fod ei neges yn ein calonogi mewn dyddiau o erledigaeth.

**Pa Ymneilltuwyr yr hoffech dreulio diwrnod yn eu cwmni?**

Heb os nac oni bai, y Parchedig Thomas Jones o Sir Drefaldwyn (ardal Berriew) a aeth allan yn genhadwr i Ogledd Ddwyrain yr India. Newidiodd mewn amser byr holl amgylchedd ugeiniau o bobl. Gosododd yr iaith Casi ar sylfaen gadarn. Dyn arbennig. O'n hoes ni, y Parchedig Dr Howard Williams, Gweinidog Eglwys Bloomsbury Central Baptist, Llundain a chynnyrch capel Moriah y Bedyddwyr, Abercynon. Gŵr a fedrai gyfathrebu yn effeithiol.

**Pa adeilad sy'n symbol o Gristnogaeth yr ydych yn hoff ohono?**

Dau adeilad: Eglwysi Cadeiriol Anglicanaidd Lincoln a Lerpwl. Y mae'r awyrgylch yn fendithiol yno, hawdd addoli yn y ddwy Gadeirlan.

**Beth yw eich barn am y gymdeithas gyfoes?**

Gormod o bwyslais ar yr unigolyn a rhy ychydig ar y gymdeithas. Dioddefodd y teulu a hefyd bywyd ac ansawdd y gymuned. Nid oes rheol euraid ar gael bellach ac y mae dirywiad y capel a'r Ysgol Sul wedi niweidio'r gymdeithas o'n hamgylch. Gofidiaf am y pwyslais diddiwedd ar bethau materol a'n bod yn pwyso a mesur cyfraniad yn ôl hyn sydd gennym yn hytrach na'n bywyd personol. Y mae ein diffyg consyrn am yr ysbrydol ac am Dduw yn fy ngofidio yn fawr. Y dynol yw ffon fesur. Cred cynifer y dylem fyw i'r presennol ac anghofio'r dyfodol. Dyna pam fod gan lawer o bobl ddyledion beichus i'w blino.

**A ydych o blaid Undeb Eglwysig yng Nghymru?**

Hoffwn yn fawr weld Undeb Eglwysig ond ofnaf na ddaw fy mreuddwyd yn realiti. Bedyddiwr o argyhoeddiad ydwyf. Credaf yn angerddol mewn bedydd trochiad ar gyfer oedolion. Dyna'r patrwm Beiblaidd. Ar y llaw arall, yr ydym yn gweld yr angen fel Ymneillltuwyr i gydweithio am fod cymaint yn gyffredin gennym. Gweithiais yn ffyddlon o fewn Cytûn yn nhref Rhaeadr a Llandrindod. Hoffwn felly weld Undeb eglwysig ond cyfle hefyd i amrywiaeth o fewn yr uniad. Yr oeddwn wedi cael fy siomi gyda'r ddogfen 'Y Ffordd Ymlaen' rai blynyddoedd yn ôl am ei fod yn gosod patrwm Presbyteraidd ar yr eglwys unedig pan ddeuai i fodolaeth. Camgymeriad dybryd. Nid yw Undeb Bedyddwyr Cymru wedi llofnodi Cyfamod tuag at Undeb Eglwysig. Heb iddi newid meddwl nid oes gobaith i rywrai fel fi ddod yn rhan o unrhyw eglwys unedig yn y Gymru gyfoes.

**Beth sydd yn codi eich calon y blynyddoedd hyn?**

Haelioni pobl, yn arbennig yn y gorllewin i gynorthwyo pobl dlawd y trydydd byd, a hefyd i ddefnyddio ei sgiliau, ei hamser a'i harian i helpu pobl a fu yng nghanol trasiedi'r Tsunami a'r gofid yn Ynysoedd y Philipinau. Pan yw pobl yn sensitif i anghenion pobl eraill ac yn barod i wneud aberth personol ar ei rhan, yna y mae gobaith mawr i'n byd. Un peth arall sy'n codi fy nghalon yn 2014 yw tyfiant yr Eglwys Gristnogol mewn rhannau o'r byd. Daeth hyn yn fyw iawn i ni fel Bedyddwyr pan gynhaliwyd cynhadledd flynyddol y Baptist World Alliance ym Mirmingham.

**CYFARFODYDD YN SAESNEG – CROESO I BAWB**

## Urdd y Graddedigion; Prifysgolion a Cholegau Cymru

## *Guild of Graduates: Universities & Colleges in Wales*

Forthcoming meetings of the Liverpool Branch at the Welsh Centre, Heathfield Road/Auckland Road, Allerton, L15 ***(Admission £2.00)***

**Monday, March 10th 2014 at 7.30pm (10-3-2014)**
Yr Athro/Professor Ken Roberts Honorary Senior Fellow,
*Department of Sociology, Social Policy & Criminology, University of Liverpool will speak on*
***'Sociology and Frank Sinatra"***

**Monday April 7th 2014 at 7.00pm (please note time) - (7-4-2014)**
Yr Athro/Professor Helen Fulton
Professor of Medieval Literature, Centre for Medieval Studies, University of York, will speak on
***"Troy in Wales: Cultural Transmission in Medieval Britain"***

**Monday May 19th 2014 at 7.30pm (19-4-2014)**
Yr Athro/ProfessorMari Lloyd-Williams
Institute of Psychology, Health & Society, University of Liverpool, will speak on
***"Ageing and the Welfare State"***

Tudalen 1-12 Mawrth 9/7/14 14:13 Page 11

COFLEIDIO CYMRU

# Craig-y-Nos a Brenhines y Gân





Dyma olwg ar Graig-y-Nos, un o gestyll gwneud Cymru sydd yn gyrchfan boblogaidd i drigolion y cymoedd. Saif rhwng Ystradgynlais a Defynnog ym Mrycheiniog a hawdd yw mynd hefyd yn ystod yr un daith i weld ogofâu Tan-yr-Ogof sy'n gyfagos.

Cysylltir Craig-y-Nos â'r gantores opera enwog Adelina Patti a adnabyddid fel Brenhines y Gân. Nid oedd gwaed Cymreig o gwbl yn ei gwythiennau: fe'i ganed ym 1843 ym Madrid i rieni Eidalaidd ac fe'i magwyd yn Efrog Newydd.

Prynodd Craig-y-Nos ym 1878 pan oedd ar frig ei phoblogrwydd, a hynny ar gyngor un o'i ffrindiau, Arglwydd Abertawe. Adeiladwyd y castell-dŷ ym 1843 ond fe'i adnewyddwyd yn ystod ei arhosiad hi yno. Daeth Craig-y-Nos yn afallon iddi. Ceisiai ddychwelyd ar ôl ei theithiau llwyddiannus i dawelwch Craig-y-Nos a gwahoddid mawrion byd yr opera i aros yno hefyd.

Bu farw'r soprano fyd-enwog ym 1919 a chiliodd tipyn o'r gogoniant o Graig-y-nos. Ond mae'n dal yn werth ei weld.

# CROESAIR MAWRTH

**Ar groes:**


1. Emyn sy'n ffefryn gan "lawer, neb yn" siŵr paham! (9).
8. Bwyd sy'n hoff gan bobl y dwyrain a'r eisteddfodwyr (4).
10. I fod yn gyflym fel mae Claude o'r dechrau! (4).
11. I ddangos unwaith eto ei fod yn iawn (8).
12. Pan wyt ar fôr bywyd ac o don i don,
pan fo ofni yn tristau dy fron' (C.Ff. 142) (4).
14. Beth mae'r gwartheg yn ei wneud yn Llanddewi (5).
15. Yr wybren uwchben, yn yr un enw! (3).
16. 'Y mae Duw yn neffro'r gwanwyn
ef yn awdur popeth byw
a chyhoedda miwsig ——
yn y coed mai da yw Duw.' (C.Ff. 136) (4).
18. Emyn R T. Jones, ar 'enw'n llwyr' adnabyddu ! (8).
21. Perthynas sy'n fab i frawd neu chwaer, yn ôl Ian! (3).
22. Beth bynnag ddaw, doed a …… (4).
24. Yn gwybod beth yw cynnyrch y iâr! (2).
25. Llog o'r arian sydd i'w sylweddoli yma! (3).
26. "… ddaeth â'm traed yn ôl
i lwybrau'r nefoedd lân' (C.Ff. 161) (4).
28. Geiryn perthynol a ddefnyddir ymhob cyflwr, ond enwol a'r gwrthrychol – i fod yn fyr! (2).
29. I fod yn garedig o'r dechrau fel un o'r teulu – nid y chwaer y tro hwn! (7).

**I lawr:**

1. Cael "Sul bron a'i" ddefnyddio i roddi disgrifiad byr (9)
2. Cewch o leiaf gadwyn o flodau i'ch croesawu i Hawaii! (3).
3. Ethol eto, a'r "sail i ddew" yn unig! (8).
4. Ceir "neb sydd o" werth i egluro'n well (7).
5. Yr emynydd urddasol Howell E. Lewis (5).
6. "Â'i wyneb ar yr euog ……
maddeuant a'i ymgeledd" (C.Ff.237) (3).
7. Niwlen sy'n troi'n ddu'n yn y diwedd! (3).
9. Heb absennu â'i dafod, heb wneuthur drwg i'w gymdogion, ac heb dderbyn enllib ………… ei gymdogion (Salm 15) (5).
10. Cantorion sy'n gwneud "cawl o'r" canu! (6).
13. Fel a "wna llu" – i fod ar y dde neu'r chwith (5).
17. Mynd i angladd, pan ar wyliau? (5).
19. Aderyn o oes arall! (3).
20. Un sy'n gweithio yn yr 'sbyty! (4).
23. Mesur canol y dderwen (3).
27. Ni …… efe i'th droed lithro ac ni huna dy geidwad (Salm 121) (2).

Nodyn: Mae llythrennau fel 'DD' 'TH' i'w cynnwys mewn un sgwâr.

- Diolch i Ken Williams, Lerpwl am ddyfeisio croesair arall i'r Angor.
- Anfoner eich ymgais at y Golygydd, Dr. D. Ben Rees, 32 Garth Drive, Lerpwl/Liverpool Ll8 6HW, erbyn 10 Mawrth, 2014.



Enw.......................................................................................

Cyfeiriad .............................................................................

.............................................................................................

Tudalen 1-12 Mawrth 9/7/14 14:13 Page 12

## *Gair Byr i'r Darllenwyr, Cyfranwyr, Dosbarthwyr a Theulu'r Angor*

- **Tanysgrifiadau/Rhoddion** - Llawer o ddiolch am haelioni i'r papur bro hwn, papur unigryw iawn yn hanes newyddiaduriaeth Cymraeg 2014. Daliwch i'w gynnal trwy anfon at ein Trysorydd, Roderick Owen, Maeshir, 21 Drennan Road, Allerton, Lerpwl/ Liverpool L19 4UA, a chaiff eich cyfraniad ei gydnabod yng Nghornel y Trysorydd yn rhifyn nesaf *Yr Angor*.
- ***Pris Yr Angor*** yw £10.50 trwy'r post bob mis. Anfoner eich siec i Bwyllgor *Yr Angor*. Hysbyseb – £60 y tudalen; £30 hanner tudalen.
- **Rhifynnau nesaf yr Angor**

  i) **Rhifyn Ebrill 2014 –** erbyn bore Sadwrn, Mawrth 1 neu yng Nghapel Bethel, Auckland Road ar fore Sul, Mawrth 2 erbyn 11.30, neu ar y we i benatgarthdrive@talktalk.net neu ben@garthdrive.fsnet.co.uk

  ii) **Rhifyn Mai 2014 –** erbyn bore Llun, 31 Mawrth y lluniau, adroddiadau etc.

  iii) **Rhifyn Mehefin 2014** erbyn bore Iau, 1 Mai i 32 Garth Drive, Allerton, Lerpwl L18 6HW.
- **Cofier y wefan –** Liverpool-welsh.co.uk (ewch yno bob mis) a Cymry-Lerpwl.co.uk

***Cyfarfod Dosbarth Lerpwl o Henaduriaeth y Gogledd-Ddwyrain***

# DATHLU YM MHENBEDW

**Oedfa i Gofio am Gyfraniad y Diwygiwr o Drefeca,**

## Howell Harris (1714-2014)

**ar bnawn Sul, 16 Mawrth, 2014**
**am 2.30 o'r gloch**
**yng Nghapel Seion, Laird Street, Penbedw**
**pryd y cymerir rhan gan gapeli Glannau Mersi.**
Llywydd: Mr. John P. Lyons
Organydd: Mr. Terry O'Neill.
*Darperir te yn dilyn yr oedfa*

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

*Cyhoeddwyd gan Bwyllgor yr Angor, Heathfield Road, Lerpwl 15.*
*Cysodwyd ac argraffwyd gan*
*Aeron Jones, Ty'n y Cefn, Llanuwchllyn 07729 960484*

PEARSON COLLINSON

*TREFNWYR ANGLADDAU LERPWL*

GWASANAETH EFFEITHIOL -
CAPELI PREIFAT, CEIR MODUR HARDD, ATEB NOS A DYDD

**Prif Swyddfa**
87-91 Allerton Road, Liverpool L18 2DD
Ffôn: 0151 722 1514. Ffacs: 0151 737 1997

**Swyddfa arall**
255 Speke Road, Liverpool L25 0NN
Ffôn: 0151 448 0808

Os ydych ar ôl cysylltu gyda un o'r swyddfeydd am gael gair personol gyda Mr. Alan Hughes ffoniwch 0151 722 1514

National Association of Funeral Directors Est 1905